Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Sefydledig Caergeiliog

**Caergeiliog**
**Caergybi**
**LL65 3NP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Sefydledig Caergeiliog

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Sefydledig Caergeiliog |
| Awdurdod lleol | Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol sefydledig |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 399 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 355 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 40 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 9.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 17.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/1982 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/11/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/10/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn gymuned hapus, ofalgar a threfnus sy’n arddangos gwerthoedd cryf. Mae arweinwyr, staff a disgyblion yn hyrwyddo’r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus, wedi’u seilio ar weledigaeth yr ysgol y dylai pob plentyn gael ei feithrin i gyrraedd ei lawn botensial a gwneud cyfraniad gwerthfawr at gymdeithas. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dangos caredigrwydd, meddylgarwch a pharch at bobl eraill yn eithriadol o dda. Dangosir hyn yn lles y disgyblion, a’u hagweddau at ddysgu.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob gallu yn datblygu eu medrau’n hyderus ac yn cymhwyso eu llythrennedd a’u rhifedd mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol mewn gwahanol feysydd dysgu. Maent yn datblygu dysgwyr sy’n gynyddol annibynnol, gan ddangos dyfalbarhad da â’u tasgau. Maent yn cydweithio’n dda â’i gilydd ac yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau treiddgar eu hathrawon, ac yn ymateb yn aeddfed i adborth gan staff a chyfoedion. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant darllen effeithiol, ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau’n llwyddiannus wrth ymchwilio i wahanol destunau neu wrth fwynhau gwaith gwahanol awduron.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a difyr ac yn datblygu’n dda i ymateb i’r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad (MDPh) a’r gweithgareddau sy’n gysylltiedig â nhw. Mae disgyblion yn cyfrannu’n dda, gan awgrymu syniadau am beth hoffent ei ddysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, mae cyfleoedd i ddisgyblion benderfynu ar sut i gyflawni tasg a chyflwyno’u gwaith yn llai cyson.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant yn effeithiol trwy gyfleoedd i ddysgu am yr ardal leol, a thrwy’r ffordd y defnyddir yr iaith ym mhob agwedd ar brofiad ysgol y disgyblion. Mae ystod eang o grwpiau cynrychioliadol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fod yn ddinasyddion gweithredol a gwybodus, a dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu profiad ysgol.

Mae’r pennaeth a’r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pawb yn yr ysgol, gan ddefnyddio dulliau sefydledig i werthuso’r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn barhaus. Mae’r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl lawn a manwl mewn monitro safonau a darpariaeth. Caiff cyfrifoldebau am arwain gwahanol feysydd cwricwlaidd ar gyfer monitro cynnydd eu rhannu’n effeithiol. Mae’r staff brwdfrydig ac ymroddgar yn elwa ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol rheolaidd, ac yn cymhwyso’u dysgu yn ddiwyd er budd eu disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau digidol disgyblion hŷn

A2 Sicrhau bod athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar sut maent yn dysgu ac yn cyflwyno'u gwaith

A3 Sicrhau bod cyflymdra priodol i'r addysgu gan adlewyrchu arfer orau'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gydag ystod o fedrau sy’n cyfateb i’r hyn sy’n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag angen dysgu ychwanegol (ADY), neu’r rhai o gefndir llai breintiedig, yn gwneud cynnydd da trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn ymateb yn dda i’r cymorth a gânt gan staff a phartneriaid eraill. O oedran cynnar, mae bron pob un o’r disgyblion yn adeiladu ar wybodaeth a medrau blaenorol yn effeithiol, ac wedi ymrwymo’n llawn i’w dysgu. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n astud yn ystod gweithgareddau. Maent yn gofyn cwestiynau ac yn ymateb yn feddylgar i oedolion a’u ffrindiau. Mae llawer ohonynt yn cydweithio’n dda iawn â’u cyfoedion ac yn dangos eu bod yn gallu canolbwyntio’n dda. Maent yn dangos brwdfrydedd gwirioneddol tuag at ddysgu ac yn mwynhau esbonio’r hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn esbonio’n gyffrous fod llu o wahanol anifeiliaid wedi bod yn rhuthro tuag at eu dosbarth ac wedi gadael olion troed ar y llawr y tu allan.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn mwynhau cyfleoedd i chwarae yn ardaloedd y ddarpariaeth y tu mewn a’r tu allan i adeiladau’r ysgol, gan ddatblygu cryfder, cydsymud a chydbwysedd corfforol. Maent yn datblygu medrau echddygol manwl a bras cryf fel arllwys, taflu a dal. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd cryf yn cymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n gofyn iddynt ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dangos canolbwyntio cynaledig i ddylunio a lliwio glöyn byw, gan gefnogi eu dealltwriaeth o wahanol linellau cymesuredd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o ymadroddion Cymraeg cyfarwydd ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau a chyfarwyddiadau a roddir gan eu hathrawon, staff cymorth, cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith ac yn mwynhau cael sgyrsiau syml yn dibynnu ar oedran a gallu. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn darllen Cymraeg ag ynganiad a dealltwriaeth dda o’r testun.

Yn nosbarthiadau disgyblion iau, mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am y cymeriadau yn y llyfrau y maent yn mwynhau eu darllen gydag oedolion a ffrindiau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod ystod gynyddol o lythrennau a seiniau wrth ddarllen amrywiaeth o eiriau syml gyda’i gilydd ar sgrin cyfrifiadur. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn darllen yn hyderus ac yn defnyddio gwahanol giwiau darllen yn effeithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn mwynhau trafod amrywiaeth o destun, ac yn cyfeirio’n aeddfed at eu hoff awduron. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall pwysigrwydd dod i gasgliad, ac yn dechrau darllen y tu hwnt i'r testun. Mae’r disgyblion y nodwyd eu bod yn fwy abl yn darllen amrywiaeth eang o destunau soffistigedig gyda hyder a mynegiant.

Mae llawer o’r disgyblion iau yn dechrau defnyddio llythrennau i greu geiriau cyfarwydd ac yn datblygu ymwybyddiaeth o sut i greu brawddegau syml. Maent yn

mwynhau creu marciau ac yn mynegi eu syniadau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel pensiliau, sialciau a dyfeisiau electronig. Mae llawer o ddisgyblion Blynyddoedd 1 a 2 yn ysgrifennu'n hyderus, er enghraifft wrth lunio disgrifiad o oleudy, gan nodi ei bwysigrwydd ar gyfer llongau a allai fod mewn perygl. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu erthygl papur newydd effeithiol yn dwyn y teitl 'Mae Gwenllian wedi marw' ('Gwenllian's dead') fel rhan o'u gwaith prosiect am dywysogion Cymru. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu cerddi sensitif a hynod effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i, ac ysgrifennu am, hanes cenhedlaeth Windrush. Maent yn defnyddio effeithiau fel personoli, cyflythrennu ac odl i greu effaith yn eu hysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o'r angen i ymateb i adborth gan eu cyfoedion ac oedolion, a sut mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu syniadau.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn yr holl feysydd mathemateg ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Yn nosbarthiadau'r disgyblion iau, mae llawer ohonynt yn datblygu eu dealltwriaeth o batrymau ac yn rhoi pethau yn eu trefn yn effeithiol, er enghraifft wrth wneud cebabau ffrwythau. Mae llawer ohonynt yn cofnodi eu hymchwil i ba ffrwythau y mae eu cyfoedion yn eu mwynhau trwy gynhyrchu graffiau bar syml yn gywir. Ym Mlwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal ymchwiliad llwyddiannus i siapiau 3D gan edrych ar niferoedd yr wynebau, yr ymylon a'r pigau o fewn gwahanol siapiau. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau ymhellach, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn mwynhau gweithgareddau difyr yn eu gwaith testun ynghylch 'cestyll a theyrnasoedd' sy'n edrych ar ddatblygu medrau mesur trwy gymharu pa mor bell y gallant daflu eu gwaywffyn. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cynhyrchu graffiau trosi cywir gan roi manylion am y berthynas rhwng punnoedd ac ewros.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ystod o weithgareddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn defnyddio ystod dda o adnoddau i ddatblygu a chefnogi eu medrau. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio cyfrifiaduron llaw i gwblhau gweithgareddau wedi'u seilio ar fedrau fel cwblhau jig-so, neu'n ysgrifennu dros wahanol lythrennau a seiniau. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn defnyddio'r codau QR sy'n cael eu harddangos ar y waliau yn hyderus i wrando ar storïau Cymraeg sy'n helpu datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder yn defnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn defnyddio meddalwedd codio yn dda i greu gemau syml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio taenlen syml yn bwrpasol, er enghraifft wrth gofnodi cynnwys siwgr mewn bwydydd bob dydd, ac yn defnyddio meddalwedd briodol wrth baratoi cyflwyniadau. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion hŷn yn unig sy'n datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i drin data. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i ddatblygu eu medrau digidol ehangach ymhellach mewn gwahanol feysydd dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft wrth fwynhau gweithgareddau celf a dylunio. Mae'r disgyblion iau yn tynnu lluniau manwl ar eu dysgu am Affrica, ac mae disgyblion hŷn yn creu silwetau effeithiol wedi'u seilio ar gamelod a phyramidiau. Mae disgyblion yn mwynhau gweithgareddau canu ac yn perfformio amrywiaeth eang o emynau a chaneuon yn eiddgar a gyda pherseinedd rhagorol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol, maent yn brydlon ac yn hapus. Maent yn teimlo’n ddiogel ac yn saff yn amgylchedd yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd problem yn codi. Mae disgyblion yn deall beth ddylent ei wneud os oes unrhyw beth yn eu poeni. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth, ac yn hyderus fod staff yn deall sut i ddelio’n gyflym ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau a godir.

Mae disgyblion yn gwrando’n astud ac yn barchus iawn at ei gilydd yn ystod gweithgareddau, amser egwyl ac amser cinio. Maent yn ymateb yn aeddfed i’w gilydd, gan fynegi eu barn yn glir. Mae rheolau’r ysgol yn bwysig iddynt ac yn rhan annatod o’r ffordd y maent yn dysgu rhyngweithio â’u cyfoedion, ac yn datblygu i fod yn unigolion gwybodus.

Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hyderus i drafod eu diddordebau a’r pethau y maent yn angerddol ynglŷn â nhw oherwydd bod y staff yn creu amgylchedd cyfeillgar a gofalgar lle caiff barn pawb ei pharchu. Adlewyrchir y diwylliant hwn o barch ar y ddwy ochr yn yr ymddygiad eithriadol o dda a ddangosir gan y disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae disgyblion yn ymgymryd â rolau arwain yn frwdfrydig ac yn cyflawni eu rolau yn ddiwyd a gyda balchder. Mae aelodau o’r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a’r pwyllgor elusennau yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, ac fe gaiff y deilliannau effaith uniongyrchol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, neilltuodd y cyngor ysgol gyllid i brynu amrywiaeth o lyfrau ar gyfer y disgyblion hŷn, gan ymchwilio i’w diddordebau a’u hanghenion. Caiff gwaith y grwpiau hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion pobl eraill yn eu cymuned. Er enghraifft, maent yn casglu bwydydd i’w rhannu gyda sefydliadau cymorth yn lleol. Hefyd, maent yn datblygu ymwybyddiaeth ehangach o faterion byd-eang yn dda, er enghraifft wrth godi arian i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol trwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft yn ystod gwersi dawns wedi’u seilio ar symudiad dŵr. Hefyd, mae disgyblion yn defnyddio geirfa helaeth i drafod, esbonio a gwerthuso’u gwaith yn effeithiol yn y gwersi hyn. Ceir digonedd o ofod i ddisgyblion fwynhau chwarae a rhyngweithio yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed bwydydd a diodydd iach, a phwysigrwydd diet cytbwys.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr galluog, sy’n barod i ddysgu. Maent yn dangos gwydnwch yn eu gwersi ac yn deall bod gwneud camgymeriadau yn rhan o’r broses ddysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu’n frwdfrydig â thasgau, ac mae llawer ohonynt yn deall sut i wella’u gwaith trwy wrando ar adborth gan yr athro a’u cyfoedion, a’i ddefnyddio. Yn aml, mae disgyblion yn gefnogol i’w gilydd ac yn gweithio’n dda yn unigol, mewn parau neu grwpiau, tra’n dangos dyfalbarhad neu’n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio’n bwrpasol ac yn barod i ddechrau eu gwaith yn brydlon ar ddechrau sesiynau dysgu. Maent yn gwrando’n astud ar

gyflwyniadau ac yn symud o un gweithgaredd i un arall yn hawdd, a heb amhariad. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol i’r amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn gwybod sut i ymestyn a dyfnhau eu dealltwriaeth, gan wneud awgrymiadau ynglŷn â’r hyn yr hoffent ei ddarganfod am wahanol destunau. Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn dda i gyfleoedd i’w cyfoedion ddatblygu eu medrau a’u gwybodaeth ymhellach, er enghraifft yn ystod sesiynau Ffrangeg lle maent yn dysgu am y berthynas rhwng gwahanol ieithoedd.

Mae disgyblion yn oddefgar ac yn sensitif i anghenion a dyheadau pobl eraill. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ymwybyddiaeth dda o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Yn ychwanegol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth o ddinasyddiaeth foesol a gwerthfawrogiad cryf o wahanol ddiwylliannau. Mae gan lawer o ddisgyblion hŷn rôl bwysig yn ystod gwasanaethau ysgol gyfan, gan fyfyrio ar eu meddyliau am faterion cyfoes. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd caredigrwydd a goddefgarwch, ac yn cyflawni eu rolau’n dda iawn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn berthynol i’w hoedran, yn gwybod sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel, yn enwedig wrth ddysgu ar-lein. Mae ymweliadau gan bartneriaid allanol fel y swyddog heddlu cymunedol yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o ddiogelwch ar y rhyngrwyd yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd peidio â rhannu manylion personol na chyfrineiriau â phobl eraill.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau dysgu cyfoethog ar gyfer disgyblion o bob oedran a gallu. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddatblygu ystod eang o fedrau o fewn gwahanol feysydd dysgu a phrofiad. Mae athrawon yn cynllunio ystod effeithiol o weithgareddau difyr i alluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn datblygu eu cwricwlwm i adlewyrchu’r ardal ac yn datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymharu eu profiad eu hunain o fyw ar ynys gyda phrofiad plant eraill mewn rhannau eraill o’r byd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymharu eu profiad nhw â phrofiad plentyn sy’n byw yn Sisili.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ysbrydoledig a diddorol sy’n cwmpasu cyd-destun yr ysgol yn dda ac yn adlewyrchu iaith, amrywiaeth a diwylliant Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am eu treftadaeth Gymreig wrth ddysgu am y ffigurau hanesyddol a fu’n byw ar Ynys Môn. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ynglŷn â datblygu medrau Cymraeg disgyblion, ac mae ei chwricwlwm yn darparu lefel o ddarpariaeth sy’n briodol ar gyfer anghenion disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio’n drylwyr i sicrhau bod gweithgareddau’n adeiladu’n gadarn ar ddysgu blaenorol. Er enghraifft, defnyddiant y canfyddiadau o ‘Ddydd Gwener Adborth’ (‘Feedback Friday’) i addasu profiadau dysgu ar gyfer yr wythnos ganlynol, gan ystyried barn y disgyblion. Mae athrawon yn darparu ystod ddifyr o weithgarwch, sy’n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o elfennau fel effaith diet cytbwys ar eu hiechyd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn gweithio gyda’i gilydd i ymchwilio i, a nodi, nodweddion iach ac afiach amrywiaeth o fwydydd.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac mae hyn yn meithrin ymdeimlad o uchelgais a dyhead ymhlith disgyblion mewn

amgylchedd dysgu cefnogol. Mae gan athrawon berthnasoedd gweithio cynhyrchiol ac effeithiol gyda disgyblion, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion. Mae ymddygiad disgyblion yn ystod gwersi yn dda iawn ar draws yr ystod oedran gyfan, ac mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod gwersi wedi'u strwythuro'n dda, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn aeddfed i ddisgwyliadau uchel athrawon. O ganlyniad i hyn, ceir cymuned ddysgu anogol a sensitif.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau addas sy'n hygyrch i'r holl ddisgyblion. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, rhoddir dewis o weithgareddau i ddisgyblion sy'n gweddu orau i'w hanghenion yn unol â lefel yr her. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn dewis o blith dewislen briodol o heriau wrth gwblhau gwaith ar blotio cyfesurynnau. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn gynyddol mewn cynllunio'r cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn awgrymu gweithgareddau diddorol y maent yn dymuno'u cwblhau fel rhan o'u gwaith thematig ar yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn cynnwys creu llyfr dogni a phobi teisennau cri gan ddefnyddio'r cynhwysion cyfyngedig a oedd ar gael ar y pryd.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau esbonio sut mae eu syniadau'n cyfateb i'r gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, er enghraifft awgrymu yr hoffent ddysgu am ddarluniau a cherddoriaeth Eifftaidd hynafol fel rhan o'u gwaith yn gysylltiedig â'r celfyddydau mynegiannol. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion benderfynu sut maent yn mynd i gyflawni tasg a'r ffordd y maent yn bwriadu cyflwyno'u gwaith. O ganlyniad, nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn ymgysylltu'n llawn mewn gwersi ac felly nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig bob amser.

Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, ceir cyflymdra bywiog i gyflwyniadau, ac mae disgyblion yn canolbwyntio'n bwrpasol yn eu dysgu am gyfnodau estynedig. Mewn ychydig iawn o wersi, mae cyflwyniadau athrawon yn rhy hir. O ganlyniad, nid yw disgyblion mwy abl yn ymgymryd â'r dasg am gyfnodau amser digonol. Mae hyn yn arafu cynnydd disgyblion sy'n barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod effeithiol o dechnegau holi yn aml gan ddefnyddio cwestiynau agored i asesu dealltwriaeth a dysgu disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf llwyddiant cytûn yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn gwneud defnydd effeithiol o'r 'Pryf Cop Llwyddiant' ('Success Spider'). O ganlyniad, gallant nodi'r camau nesaf yn eu dysgu yn gywir, sy'n cefnogi eu cynnydd yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn creu cymuned ofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi'r holl ddisgyblion ac oedolion. Maent yn meithrin gwerthoedd ar y cyd, fel hunan-barch,

caredigrwydd a pharch am bobl eraill yn eithriadol o dda. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar les disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae addoli dyddiol ar y cyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Mae'r cyfnodau hyn yn helpu disgyblion i ddeall a myfyrio ar ystod eang o faterion moesegol a moesol. Mae'r sesiynau ysgol gyfan rheolaidd hyn hefyd yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth Gymreig eu hardal a'i pherthynas â rhannau eraill o'r wlad a'r byd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau ystyrlon trwy'r cwricwlwm cyfoethog, sy'n annog disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gref o'r gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n iawn a ddim yn iawn, a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd da.

Mae gan staff berthynas gefnogol iawn â rhieni. Mae'r polisi drws agored a chyfathrebu digidol yn hwyluso cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. O ganlyniad, mae rhieni'n ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol, a chynnydd eu plentyn.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth gadarn ac effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gydag athrawon, rhieni a phartneriaid allanol i greu cynlluniau datblygiad unigol manwl a defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddarpariaeth yr ysgol i gefnogi iechyd emosiynol a lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn trafod unrhyw bryderon personol â staff. Mae'r ddarpariaeth effeithiol i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel wrth weithio ar-lein yn effeithiol.

Mae staff yn annog disgyblion i wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u diet ac ymarfer corff. Mae grwpiau amrywiol llais y disgybl fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco, pencampwyr lles a'r pwyllgor elusennau yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus. Maent yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n ysgogi gwelliant i fywyd yr ysgol, er enghraifft cadw amgylchedd yr ysgol yn lân ac yn rhydd rhag sbwriel. Mae'r pwyllgor elusennau yn dewis pum elusen bob blwyddyn y maent yn dymuno'u cefnogi. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar amgylchedd yr ysgol a lles disgyblion, ac mae'n hyrwyddo ymdeimlad o falchder yn eu hysgol.

Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn gadarnhaol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft trwy destunau wedi'u seilio ar y cwricwlwm, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a chystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd. Yn ychwanegol, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr astudio a dathlu hanes a threftadaeth leol wrth ddysgu am hen Dywysogion Cymru fel Owain Glyndŵr a Llywelyn Fawr. Mae'r staff yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydol y diwrnod ysgol hefyd trwy holi a chanmol disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu disgyblion. Mae pob un o'r staff yn deall y mesurau a'r polisïau cadarn sydd ar waith, ac yn gwbl ymwybodol o beth i'w wneud os bydd disgybl yn codi unrhyw bryderon.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth sefydledig a chlir ar gyfer yr ysgol, wedi'i seilio ar ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer yr holl ddisgyblion. Caiff y weledigaeth hon ei

rhannu'n llwyddiannus â phob aelod o staff sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu amgylchedd diogel a gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus wrth iddynt baratoi i fod yn ddinasyddion y dyfodol. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o bob un o'r staff a'r disgyblion, ac adlewyrchir hyn yn agweddau disgyblion at ddysgu a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Mae pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae hyn oherwydd bod arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso'r cynnydd a wna disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn rhoi gwybod i arweinwyr am gryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir. Er enghraifft, mewn dadansoddiad diweddar o fedrau TGCh disgyblion, nodwyd meysydd penodol yr oedd angen eu cryfhau. Mae cynlluniau wedi'u gosod yn glir ac yn cynnwys cerrig milltir synhwyrol i'w cwblhau o fewn graddfeydd amser realistig sy'n cynorthwyo staff i weithredu yn unol â meysydd i'w gwella a nodwyd. Caiff blaenoriaethau'r ysgol eu monitro'n rheolaidd, a thrafodir y canlyniadau â staff a llywodraethwyr. Mae arweinwyr yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol pwysig yn drylwyr, fel paratoi'n llwyddiannus ar gyfer yr agenda trawsnewid ADY a gwella deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn eithriadol o gefnogol i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Er nad yw trefniadau arferol y llywodraethwyr o ran gweithgareddau ar y safle wedi ailddechrau'n llawn ers y pandemig, cânt wybodaeth gyfoes gan staff a phartneriaid allanol, fel cyflwyniadau ar y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn herio arweinwyr yn gadarn ar faterion fel deilliannau disgyblion a gwariant cyllidebol. Mae llywodraethwyr yn gweithio gydag arweinwyr i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth yn ffreutur yr ysgol, a thrwy weithgareddau cwricwlaidd yn ogystal. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am arferion bwyta'n iach ac yn deall pwysigrwydd diet cytbwys.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn effeithiol. Mae amcanion staff yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol ac â'u hanghenion dysgu proffesiynol. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i ddatblygu arbenigedd a gwybodaeth staff. Er enghraifft, mae cyrsiau arweinyddiaeth, gweithgareddau dysgu proffesiynol cwricwlaidd a chyrsiau i gynorthwyo staff i gefnogi disgyblion sy'n emosiynol fregus, yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol â'r awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol, ysgolion clwstwr a phartneriaid ehangach, er mwyn elwa ar rannu arfer effeithiol.

Mae'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol gyda chymorth a her gan y corff llywodraethol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o amrywiaeth o ffynonellau cyllido, er enghraifft i gyflawni'r flaenoriaeth i greu ystafelloedd dosbarth yn yr awyr agored i gyfoethogi'r profiadau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd yn effeithiol i ysbrydoli disgyblion trwy ddarparu profiadau dysgu ysgogol ar eu cyfer.

Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol penodol, i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu cael gwersi cerddoriaeth ac yn

gallu mynd ar dripiau addysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau ystod eang o brofiadau addysgol pwrpasol sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar eu medrau a'u lles.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod ganddo berthynas gref â rhieni, ac maen nhw'n gwerthfawrogi'r bartneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda ac yn cael gohebiaeth reolaidd am gynnydd eu plentyn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/12/2022